**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/08778/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

SeneddPetitions@assembly.Wales

14 Ionawr 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr yn gofyn am ddiweddariad ynghylch ein cynlluniau at y dyfodol o ran diwygio prosesau trwyddedu tacsis.

Trwy ein Papur Gwyn gwnaethom ofyn am sylwadau ynghylch cynigion ar gyfer diwygio prosesau trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat. Mewn ymateb gwnaethom dderbyn sylwadau amrywiol iawn ynghylch sut y dylai'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat gael ei wella.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth gref i'r safonau cenedlaethol, gwell pwerau gorfodi a rhannu gwybodaeth, ond roedd rhywfaint o wrthwynebiad i'r cynigion ynghylch Cyd-awdurdod Trafnidiaeth. Cafwyd llawer o adborth yn ogystal yn nodi nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell o safbwynt ceisio mynd i'r afael â'r heriau y mae'r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat a'r rheoleiddwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

O'r herwydd rydym yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn datblygu'r cynigion hyn ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys llunio cynllun yn argymell nifer o 'atebion cyflym' yn y tymor byr cyn y bydd unrhyw newid posibl o ran deddfwriaeth.

Ein nod yw diweddaru system Cymru ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer Cymru gyfan heddiw. Rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys creu safon gyson a fydd yn cael ei gweithredu ar draws Cymru sy'n hyrwyddo diogelwch, yn cyfrannu at amgylchedd sy'n fwy glân, yn gwella profiadau cwsmeriaid ac yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hyrwyddo cydraddoldeb. Ymysg y meysydd gwaith sy'n cael eu hystyried yn ystod y gwaith datblygu polisi yma mae:

- Darparu hyfforddiant ar gyfer gyrwyr gan gynnwys meysydd fel diogelu plant ac oedolion agored i niwed, codi ymwybyddiaeth o anableddau a gwasanaeth i gwsmeriaid.
- Safonau cenedlaethol ar gyfer gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch
- Gwell pwerau gorfodi a gweithdrefnau cyson
- Gwell prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol a datblygu cofrestr genedlaethol
- Effaith cerbydau trwyddedig ar yr amgylchedd
- Problemau sydd ynghlwm wrth logi ar draws ffiniau
- Hyrwyddo cydraddoldeb drwy sicrhau bod gan bob cwsmer fynediad at gerbydau addas a bod pob cwsmer yn teimlo'n ddiogel
- Gwella profiadau cwsmeriaid

Rhagwelir y bydd datblygu safonau cyson ar draws y wlad yn helpu i leihau rhai o'r problemau sydd ynghlwm wrth logi ar draws ffiniau, gan sicrhau cysondeb ar gyfer gyrwyr ac ymgeiswyr.

Cafodd Swyddog Polisi ei benodi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Hydref 2019 er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o gyflenwi'r cynigion hyn. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ar ddatblygu mesurau tymor byr er mwyn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan awdurdodau lleol a'r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat yn yr ymgynghoriad.

Bydd ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat gydol y broses hon. Mae trafodaethau hefyd wedi cychwyn â'r Adran Drafnidiaeth er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei hystyried os bydd safonau cenedlaethol yn cael eu creu ar gyfer Lloegr. Bydd hyn yn sicrhau bod cysondeb yn cael ei ystyried a hefyd yn sicrhau na fydd eu datblygiadau yn cael unrhyw effaith negyddol ar Gymru ac i'r gwrthwyneb.

Hyderaf y bydd y diweddariad hwn o gymorth i'r Pwyllgor Deisebau.

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport